gwrs gopi o'r gyfrol wedi ei lofnodi gan yr awdur ei hun. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar Sian Teifi'n adrodd y stori gyffrous newydd hon. Llongyfarchion i'r awdur.

Daeth Mr Hywel Harries atom i Adran yr Urdd a threuliodd y plant orig hapus iawn yn ei gwmni. Hawdd oedd deall bod Mr Harries yntau wrth ei fodd gyda'r plant. Trwy gyfrwng sialc a phapur daeth a nifer o gymeriadau diddorol o fyd ffilmiau a llyfrau yn fyw o'n blaen.

Ymwelodd Mr R. H. Evans y Borth a ni un prynhawn. Clywsom ganddo am y gwahangleifion ac am yr ymdrech a wneir i leddfu eu poen a'u gwewyr. Dangosodd i ni stribedau lliw'n ymwneud a'r gwaith a gyflawnir gan feddygon a nyrsus mewn gwahanol rannau o'r byd.

Cafodd y plant fwynhad mawr un bore pan ddaeth Mrs Lynwen Thomas y deintydd atom i sgwrsio ac i bwysleisio'r pwysigrwydd o ofalu ar ol y dannedd. Roedd hi wedi gofalu dod ag offer gwaith deintydd ganddi a chafodd y plant hwyl yn iawn wrth drin a thrafod y gwahanol offer.

Mae'r plant erbyn hyn yn edrych ymlaen i wythnos olaf y tymor gyda'i brysyrdeb arferol. Dymunwn Nadolig llawn dedwyddwch i bawb.